Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet

Office of the First Minister and Cabinet Office

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: ATISN 11399
Dyddiad: 15 Awst 2017

ATISN 11399

Annwyl ,

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 17 Gorffennaf 2017. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol. Rwyf wedi rhoi fy ymateb yn erbyn pob un o'r cwestiynau yr ydych wedi eu cyflwyno.

1. Pob fersiwn o siart o'r sefydliad (lefel uchel) Llywodraeth Cymru ers 2007, ac eithrio'r fersiwn gyfredol a gyhoeddwyd eisoes yma: http://gov.wales/docs/hrd/publications/170205-org-chart-cy.pdf

2. Pob fersiwn o siart o'r sefydliad (lefel weithredol, gan gynnwys teitlau swyddi unigol o fewn adrannau/canghennau) Llywodraeth Cymru ers 2007

   Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â rhan 1 a rhan 2 yn esempt o dan Adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth - gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd i'r ymgeisydd drwy sianelau eraill. Mae'r dolenni isod yn mynd â chi at nifer o fersiynau archif o wefan Llywodraeth Cymru, gan fynd yn ôl i 2007 - mae rhai o'r archifau'n cynnwys copïau o siartiau o'r sefydliad (lefel uchel) - y gellir mynd atynt drwy ddilyn y llwybr: Amdanon ni>Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru>Ein Strwythur

   http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/*/http://new.wales.gov.uk/?lang=en
   http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/*/http://gov.wales/?lang=en

3. Nifer yr holl fyrddau/paneli/cyrff cynghori allanol yn cynghori Llywodraeth Cymru/Gweinidogion Cymru mewn bodolaeth ers 2007, eu statws presennol, ynghyd â'u henwau

4. Nifer y grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2007, ynghyd â'u henwau

   O ran cwestiynau 3 a 4, rwyf wedi cyfrifo y byddai'r gost o ddarparu'r wybodaeth am grwpiau gorchwyl a gorffen yn ogystal â gwybodaeth am fyrddau, paneli, a chyrff cynghori allanol yn uwch na'r terfyn addas a bennwyd o dan Reoliadau Rhyddid Gwybodaeth a

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

CentralDepartments-FOI/DP@.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 ar gyfer ystyried eich cais, ac o'r herwydd mae'r rheoliadau'n caniatáu imi wrthod ymdrin ag ef. Y terfyn addas a bennwyd ar gyfer llywodraeth ganolog yw £600. Wrth gyfrifo a fyddai eich cais yn mynd dros y terfyn addas, caniateir imi ystyried yr amser y mae'n debygol o'i gymryd i ganfod a ydym yn cadw'r wybodaeth, dod o hyd i'r wybodaeth, cael gafael ar yr wybodaeth, a nodi'r wybodaeth benodol. Os amcangyfrifir y bydd y tasgau hyn yn cymryd mwy na 24 awr o amser gweithio, bydd gwaith yn mynd dros y terfyn.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru wybodaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth y ceisiwyd amdani mewn un maes canolog. Er mwyn dod o hyd i unrhyw wybodaeth a gedwir gennym ar draws y sefydliad, a chael gafael arni, byddai angen archwilio cofnodion copi electronig a chopi caled ar draws dros 100 o is-adrannau. Yn ystod cyfnod o flwyddyn, rwy'n amcangyfrif y byddai angen yn y lle cyntaf o leiaf 20 munud ar bob is-adran i ddod o hyd i unrhyw wybodaeth yn ei maes y mae'n ei chadw (cyn treulio'r amser y byddai ei angen i gael gafael ar yr wybodaeth a'i nodi). Byddai'r rhan hon o'r ymarfer ar ei ben ei hun felly'n mynd dros y terfyn (100*20/60 = 33.3 awr).

5. Lleoliad holl swyddfeydd/canghennau Llywodraeth Cymru y tu hwnt i Gymru, a dyddiad eu hagor

6. Enwau'r holl wledydd y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig y mae gan Lywodraeth Cymru bresenoldeb staff ynddynt

   O ran cwestiynau 5 a 6, mae lleoliadau a gwledydd swyddfeydd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

   - Gwlad Belg – Brwsel – Tŷ Cymru
   - Tsieina – Beijing - Adeilad Adnoddau Tsieina
   - Tsieina – Chongqing – Y Tŵr Metropolitan
   - Tsieina – Shanghai – y Ganolfan Brydeinig
   - India – Bangalore, Dirprwy Uchel Gomisiwn Prydain
   - India – Mumbai – Kalpataru Synergy
   - India – New Delhi – Uchel Gomisiwn Prydain
   - Iwerddon – Dulyn – Llysgenhadaeth Prydain
   - Japan – Tokyo – Llysgenhadaeth Prydain
   - Yr Emiraethau Arabaidd Unedig – Dubai – Masnach Ryngwladol Cymru
   - DU – Llundain, Victoria Street
   - UDA – Atlanta - Swyddfa Prif Gonswl Prydain
   - UDA – Chicago – Swyddfa Prif Gonswl Prydain
   - UDA – Efrog Newydd – Swyddfa Prif Gonswl Prydain
   - UDA – San Francisco - Swyddfa Prif Gonswl Prydain
   - UDA – Washington – Llysgenhadaeth Prydain

   Dyma ddyddiadau agor y swyddfeydd presennol y tu allan i Gymru:

   India: Sefydlwyd ein presenoldeb yn Llysgenhadaeth Prydain yn New Delhi ym mis Mai 2009.

   Tsieina: Agorwyd y swyddfa yn Chongqing ym mis Hydref 2010.

   Iwerddon: Sefydlwyd ein presenoldeb yn Llysgenhadaeth Prydain yn Nulyn ym mis Mawrth 2013.

   Brwsel: Agorwyd y swyddfa ym Mrwsel ym mis Mehefin 2000.

   Lloegr: Agorodd y swyddfa yn Llundain ym mis Gorffennaf 2012.

Unol Daleithiau America: Ar hyn o bryd mae holl bresenoldeb Llywodraeth Cymru yn yr Unol Daleithiau'n gweithredu o Blatfform y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

- Agorodd Efrog Newydd ym mis Ebrill 2011
- Agorodd Washington ym mis Mawrth 2013
- Agorodd San Francisco ym mis Gorffennaf 2013
- Agorodd Chicago ym mis Mehefin 2013
- Agorodd Atlanta ym mis Mawrth 2016

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw gwybodaeth ynghylch ein presenoldeb yn Tokyo, Mumbai, Bangalore, Shanghai, Beijing a Dubai, a ddaeth yn rhan o ystad y Llywodraeth yn 2006, ac a weithredwyd cyn hynny gan Awdurdod Datblygu Cymru.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir